# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 18 Ionawr 2001

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**


1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
5 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes
13 Cwestiynau i Bwyllgor y Tŷ


## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Cynllun Iawndal i Lowyr

**C6 Jocelyn Davies:** Faint o weithwyr proffesiynol ym maes iechyd a benodwyd i gynorthwyo â'r cynllun iawndal i lowyr yng Nghymru? (OAQ8890)

**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Mater a gadwyd yn ôl yw hwn, a gaiff ei gyd-drefnu gan yr Adran Ddiwydiant a Masnach a'r Adran Iechyd. Yn ddiweddar sefydlodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru dasglu i Gymru i gynorthwyo'r ADM a'r Adran Iechyd yn y mater hwn a monitro'r hyn a gyflawnir. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n cydweithredu'n llawn â'r broses honno.

Mae Healthcall, darparwr gwasanaeth yr ADM o ran y broses sbirometreg a'r broses asesu a phrofi meddygol, wedi darparu'r wybodaeth staffio ganlynol:

Mae 22 o arbenigwyr anadlol, gyda chefnogaeth wyth technegydd ysgyfaint, yn gwneud asesiadau a phrofion meddygol ar hawlwyr yng Nghymru.

Gallaf eich hysbysu hefyd fod dwy ganolfan asesu ychwanegol yn cael eu sefydlu yng Nghymru. Bydd canolfan Ystrad Mynach yn agor ar 1 Chwefror 2001 a bydd canolfan Rhydaman yn agor ar 1 Mawrth 2001. Ar hyn o bryd mae pedair canolfan asesu yng Nghymru.

### Amrywiaeth yn y Gostyngiad mewn Rhestrau Aros Ysbytai Ledled Cymru

**C7 William Graham:** A wnaiff Jane Hutt ddatganiad ar yr amrywiaeth yn y gostyngiad mewn rhestrau aros ysbytai ledled Cymru? (OAQ8966)

**Jane Hutt:** Ym mis Mai, dyrennais £40 miliwn yn ychwanegol i gymunedau iechyd i fynd i'r afael â rhestrau ac amserau aros a phwysau argyfwng. Cytunwyd ar dargedau heriol gyda phob awdurdod iechyd, gan gynnwys torri 15,000 oddi ar gyfanswm y cleifion preswyl a chleifion dydd sydd ar restrau aros, a lleihad arwyddocaol yn y nifer o bobl sydd yn gorfod aros mwy na chwe mis am apwyntiad cyntaf fel claf allanol.

Rhoddwyd yr arian i bob awdurdod iechyd i'w dyrannu i'r ymddiriedolaethau, grwpiau iechyd lleol a gwasanaethau cymdeithasol i fynd i'r afael â rhestrau ac amserau aros a phwysau argyfwng. Nododd pob awdurdod iechyd ei flaenoriaethau ei hun a datblygu mentrau ac ymatebion, fel recriwtio staff, prynu offer, cynyddu lle, sydd â gwahanol amserau arwain-i-mewn. Felly, ar wahanol amserau y gwelir sut y mae'r mentrau hynny'n effeithio ar leihau rhestrau aros.

Mae'r rhestrau aros i gleifion preswyl a chleifion dydd wedi gostwng ym mhob un o'r chwe mis diwethaf, gyda gostyngiadau ym mhob un o'r pum ardal awdurdod iechyd dros yr ychydig fisoedd diwethaf. Mae'r

rhestr aros i allgleifion wedi lleihau yn y ddau fis diwethaf fel ei gilydd. Dylanwedir ar allu'r gwasanaeth i gwtogi rhestrau aros gan y lefel o gyfeiriadau a ddaw gan feddygon teulu.

**Clefyd Coronaidd y Galon**

**C8 Ieuan Wyn Jones:** A wnaiff Jane Hutt ddatganiad cryno ar y cynnydd a wnaed wrth osod y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Clefyd Coronaidd y Galon ar waith? (OAQ8895) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Adolygiad Dyrannu Adnoddau yr NHS**

**C9 Huw Lewis:** A wnaiff Jane Hutt ddatganiad ar waith Adolygiad Dyrannu Adnoddau yr NHS yng Nghymru? (OAQ8936)

**Jane Hutt:** Mae gwaith yr adolygiad, dan gadeiryddiaeth yr Athro Peter Townsend, yn mynd rhagddo gyda golwg ar gyflwyno newidiadau a argymhellir i'r brif fformwla yn raddol o 2002-03.

Yn ogystal â sefydlu grwpiau tasg, yn cynnwys rhai i ddelio â gwledigrwydd, pellter o bobman a difreintiad cymdeithasol, penodwyd tîm ymchwilio i weithio ar feysydd allweddol yn yr adroddiad.

Mae dau ddull o ddyrannu adnoddau'n cael eu datblygu. Mae un dull yn seiliedig ar fesur anghenion iechyd yn uniongyrchol drwy ddefnyddio ffynonellau data Cymreig, gan gynnwys data arolygon iechyd Cymreig. Mae'r dull arall a ddatblygir yn seiliedig ar fesur anghenion iechyd yn anuniongyrchol, sydd yn debyg i'r dull a ddefnyddir yn Lloegr ac a gynigiwyd ar gyfer yr Alban.

Yn y cyfamser, cyhoeddwyd cronfa o £3 miliwn, £5 miliwn a £6 miliwn dros y tair blynedd nesaf i helpu i leihau anghydraddoldebau ym maes iechyd.

**Gwasanaeth Rhewmatoleg (Awdurdod Iechyd Dyfed Powys)**

**C10 Christine Gwyther:** A wnaiff Jane Hutt ddatganiad ar ddarpariaeth gwasanaethau rhewmatoleg yn Awdurdod Iechyd Dyfed/Powys? (OAQ8866)

**Jane Hutt:** Fel y gwyddoch yn sgîl fy atebion i gwestiynau blaenorol ar hyn, mae Awdurdod Iechyd Dyfed Powys ar hyn o bryd yn ystyried achos busnes dros ddatblygu gwasanaeth rhewmatoleg lleol i gleifion yn Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion.

Deallaf y bydd yr awdurdod yn penderfynu pa ddatblygiadau gwasanaeth y bydd yn mynd â hwy yn eu blaen o'r adnoddau dewisol ychwanegol a ddyrannwyd iddo gan y Cynulliad am y flwyddyn ariannol 2001-02 yn ei gyfarfod bwrdd ym mis Mawrth.

**Codi Tâl Ar Gyfer Gwasanaethau Lles Dibreswyl**

**C11 Elin Jones:** A wnaiff Jane Hutt ddatganiad cryno ar y cynnydd wrth ddrafftio'r canllawiau i awdurdodau lleol ar godi tâl ar gyfer gwasanaethau lles dibreswyl? (OAQ8907) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Darpariaeth Gwasanaethau Mamolaeth (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

**C12 Cynog Dafis:** A wnaiff Jane Hutt ddatganiad ar ddarpariaeth gwasanaethau mamolaeth ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed? (OAQ8905) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Gwasanaethau Anffrwythlondeb yng Nghymru (Gwella Mynediad)**

**C13 Janet Ryder:** Sut y mae Jane Hutt yn bwriadu gwella mynediad i wasanaethau anffrwythlondeb yng Nghymru? (OAQ8896) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Datblygu Darpariaeth Gwasanaethau drwy Gyfrwng y Gymraeg yn yr NHS**

**C14 Rhodri Glyn Thomas:** Sut y mae Jane Hutt yn bwriadu datblygu'r ddarpariaeth gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr NHS? (OAQ8893) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Eithrio Mwy o Bobl rhag Talu am Bresgripsiwn**

**C15 Kirsty Williams:** Pa gamau y mae Jane Hutt wedi eu cymryd i gyflwyno is-ddeddfwriaeth i ehangu'r dosbarthiadau o bobl sydd wedi'u heithrio rhag talu costau presgripsiynau, yn unol â'r Cytundeb Partneriaeth? (OAQ8968)

**Jane Hutt:** Byddaf yn cyflwyno cynigion yn y flwyddyn ariannol hon i ymestyn, yn y flwyddyn ariannol nesaf, yr eithriad rhag talu costau presgripsiwn i bobl 16 i 25 mlwydd oed.

**Arolwg Gwasanaethau Cymunedol a Chysylltiedig (Sir Benfro)**

**C16 Christine Gwyther:** A wnaiff Jane Hutt ddatganiad ar yr arolwg o wasanaethau cymunedol a gwasanaethau cysylltiedig ar gyfer oedolion a'r henoed yn Sir Benfro? (OAQ8913)

**Jane Hutt:** Dechreuodd Awdurdod Iechyd Dyfed Powys ymgynghori â'r cyhoedd ar ei adolygiad o wasanaethau cymunedol a chysylltiedig llym ar gyfer oedolion a'r henoed yn Sir Benfro ym mis Hydref 2000. Yr oedd y cyfnod ymgynghori i fod i ddod i ben ar 16 Ionawr.

Cyhoeddodd Awdurdod Iechyd Dyfed Powys ddatganiad yn ddiweddar yn dweud ei fod yn bwriadu newid y broses ymgynghori. Penderfynir beth fydd ffurf y newid hwnnw gan yr awdurdod iechyd.

Byddai'n amhriodol i mi roi sylw pellach o gofio fy narpar rôl pe câi'r mater ei gyfeirio yn y diwedd i'r Cynulliad Cenedlaethol am benderfyniad.

**Presgripsiynau am Ddim i Bobl 16-25 Oed**

**C17 Peter Black:** Pryd bydd y ddeddfwriaeth ar gyfer rhoi presgripsiynau am ddim i bobl 16-25 oed yn cael ei gosod gerbron y Cynulliad? (OAQ8919)

**Jane Hutt:** Byddaf yn cyflwyno cynigion yn y flwyddyn ariannol hon i ymestyn, yn y flwyddyn ariannol nesaf, yr eithriad rhag talu costau presgripsiwn i bobl 16 i 25 mlwydd oed.

**Gollyngiadau o BNFL Sellafield**

**C18 Alun Pugh:** A wnaeth Jane Hutt asesiad o iechyd pobl yng ngogledd Cymru yn sgil gollyngiadau o BNFL Sellafield? (OAQ8971)

**Jane Hutt:** Ym mater gwarchod iechyd rhag gollyngiadau ymbelydrol, caiff y Cynulliad Cenedlaethol ei gynghori a'i gefnogi gan asiantaethau eraill. Bydd Asiantaeth Safonau Bwyd y DU yn monitro effeithiau gollyngiadau o BNFL Sellafield drwy archwilio amrediad eang o samplau o Fôr Iwerddon, gan gynnwys pysgod, pysgod cregyn a gwymon. Caiff dinoethiad i ymbelydredd sydd yn deillio o waddodion halogedig ei fonitro gan yr ASB ac Asiantaeth yr Amgylchedd. Yn ôl y cyngor a gaf i, amcangyfrifwyd bod y cyfanswm dogn ymbelydredd a ddioddefodd y grŵp mwyaf dinoethedig yng ngogledd Cymru yn 1999 yn sgîl bwyta bwyd môr lleol yn llai nag 1 y cant o'r dogn uchaf diogel a bennwyd, sef 1 mili-sievert i aelodau'r cyhoedd, ac yn llai na 0.5 y cant o'r cyfartaledd dogn ymbelydredd blynyddol i'r cyhoedd yn y DU o ffynonellau ymbelydredd naturiol. Ar lefelau fel hyn, ni ddisgwylid effeithiau gweladwy ar iechyd.

**Ymchwil i Gamddefnyddio Sylweddau**

**C19 Janet Davies:** Pa gamau y mae Jane Hutt yn eu cymryd er mwyn sicrhau bod ymchwil ddigonol yn cael ei gwneud i gamddefnyddio sylweddau yng Nghymru? (OAQ8911) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Ail Agor Ysbyty Coffa Clydach**

**C20 Alun Cairns:** A wnaiff Jane Hutt ddatganiad ar ail agor Ysbyty Coffa Clydach? (OAQ8868)

**Jane Hutt:** Yn fy ateb i WAQ8431, dywedais mai ailagor ysbyty Clydach yw hoff ddewis Iechyd Morgannwg Health yn ei ymgynghoriad ar ddefnydd yr ysbyty yn y dyfodol. £1 miliwn yw'r amcangyfrif presennol o'r buddsoddiad cyfalaf y byddai ei angen i ddechrau defnyddio'r ysbyty eto.

Mae Ymddiriedolaeth NHS Abertawe wedi cyflwyno achos amlinell strategol dros y cynnig hwnnw, sydd yn cael ei ystyried gan swyddogion ar hyn o bryd. Pan gymeradwyir achos busnes y cynllun, caiff y cynllun ei ystyried ar gyfer ariannu canolog, ochr yn ochr â blaenoriaethau cystadleuol eraill.

**Cyfyngu ar Ledaeniad Afiechydon megis Toxocara**

**C21 Owen John Thomas:** Pa gamau y mae Jane Hutt yn eu cymryd i gyfyngu ar ledaeniad afiechydon megis Toxocara a achosir gan faw cŵn ar gaeau chwarae, yn enwedig y rhai hynny a ddefnyddir gan ysgolion? (OAQ8877)

**Jane Hutt:** Cyfrifoldeb awdurdodau lleol gyfrifoldeb yw erlyn perchenogion cŵn sydd yn caniatáu i'w cŵn faeddu llwybrau a rhai mannau cyhoeddus eraill, a delio â chŵn strae. Gallant hefyd, yn ôl eu doethineb, wneud gorchmynion yn gwahardd cŵn o rai mannau cyhoeddus penodol. Yn ddiweddar, diweddarodd y Cynulliad ei daflen 'Scoop the Poop; Clear up after your dog'. Mae copïau ar gael i'w defnyddio gan awdurdodau lleol un ai ar gais neu unwaith y bydd set newydd o is-ddeddfau wedi'i chyflwyno.

**Meningitis (Cynnydd yr ymgyrch Addysgol)**

**C22 Geraint Davies:** A wnaiff Jane Hutt ddatganiad cryno ar gynnydd ymgyrch addysgol iechyd y cyhoedd ynghylch peryglon meningitis? (OAQ8899) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Argymhellion Cyrff Adolygu Cyflogau yr NHS**

**C23 Ann Jones:** A wnaiff Jane Hutt ddatganiad ar oblygiadau argymhellion Cyrff Adolygu Cyflogau Annibynnol yr NHS? (OAQ8964)

**Jane Hutt:** Gall argymhellion y corff adolygu cyflogau gael eu cynnwys o fewn cytundeb cyllideb y flwyddyn nesaf ar gyfer iechyd, a byddant yn helpu i gynyddu'r niferoedd o staff hyfforddedig â chymwysterau sydd yn gweithio yn yr NHS.

**Argymhellion 'Mynediad a Rhagoriaeth'**

**C24 Cynog Dafis:** A wnaiff Jane Hutt ddatganiad cryno ar gynnydd rhoi argymhellion "Mynediad a Rhagoriaeth" ar waith? (OAQ8920) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Datblygu Gwasanaethau Iechyd Meddwl yng Nghaerdydd**

**C25 Pauline Jarman:** A wnaiff Jane Hutt ddatganiad cryno ar ddatblygiad y gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghaerdydd? (OAQ8910) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Ymchwilio i Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

**C26 Elin Jones:** A wnaiff Jane Hutt ddatganiad cryno ynghylch ei blaenoriaethau ar gyfer ymchwilio i iechyd a gofal cymdeithasol? (OAQ8904) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Beta-Interferon**

**C27 Dafydd Wigley:** A wnaiff Jane Hutt ddatganiad cryno ar effaith yr oedi mewn dosbarthu canllawiau ar ddarparu beta inteferon yng Nghymru a gyhoeddwyd dros gyfnod y Nadolig gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol? (OAQ8894) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Cyngor Gweithwyr Iechyd Proffesiynol**

**C28 Helen Mary Jones:** A oes cynlluniau gan Jane Hutt i godi mater y Cyngor Gweithwyr Iechyd Proffesiynol arfaethedig ar gyfer y DU gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru trwy Brif Weinidog Cymru? (OAQ8891) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Sgrinio Clyw Babanod Newydd-Anedig**

**C29 Karen Sinclair:** Pa gynnydd sy'n cael ei wneud tuag at ddarparu sgrinio cyffredinol ar glyw babanod newydd-anedig yng Nghymru? (OAQ8856) ***Tynnwyd yn ôl.***

**System Gwybodaeth Iechyd Plant Newydd**

**C30 Janet Davies:** Pa drefniadau sy'n cael eu gwneud ar gyfer annog partneriaeth a chydweithredu wrth ddarparu System Gwybodaeth Iechyd Plant newydd yng Nghymru? (OAQ8912) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

**Nifer y Disgyblion a Gafodd eu Gwahardd yn ystod 2000**

**C3 Glyn Davies:** A wnaiff Jane Davidson ddatganiad ar nifer y disgyblion a gafodd eu gwahardd o ysgolion yng Nghymru yn ystod 2000? (OAQ8921)

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Nid oes ffigyrau ar gael eto am y flwyddyn galendr 2000. Fodd bynnag, yr oedd cyfanswm nifer y gwaharddiadau parhaol am 1999-2000 yng Nghymru yn 337 o gymharu â 390 yn 1998-99 a 543 yn 1995-96. Mae hyn yn galonogol iawn. At hynny, dengys gwybodaeth ddiweddar ar y ddarpariaeth amgen a wneir ar gyfer disgyblion a waharddwyd yn barhaol fod y rhan fwyaf naill ai'n cael eu derbyn eto i ysgol prif ffrwd arall neu ysgol arbennig, yn cael eu gosod mewn uned gyfeirio disgyblion, neu'n cael addysg yn eu cartrefi.

*Atebwyd cwestiynau 4, 5 a 6 yn y Cyfarfod Llawn.*

**Darpariaeth Ddwyieithog yn Ysgol Gyfun Bro Myrddin**

**C7 Christine Gwyther:** A wnaiff Jane Davidson ddatganiad ar y ddarpariaeth ddwyieithog yn Ysgol Gyfun Bro Myrddin? (OAQ8872)

**Jane Davidson:** Ysgol ddwyieithog ddynodedig yw Ysgol Gyfun Bro Myrddin: dysgir pob pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg ac eithrio mathemateg a gwyddoniaeth, a astudir yn Saesneg gan rai disgyblion. Deallaf fod y llywodraethwyr, yn unol â pholisi iaith Sir Gaerfyrddin ar gyfer ysgolion o'r fath, yn dymuno symud at ddysgu pob pwnc yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg. Yr ydym wedi atgoffa'r ysgol a'r awdurdod lleol yn ddiweddar y byddai angen ymgynghori'n lleol a chyhoeddi cynnig statudol yn gyntaf cyn gwneud newid o'r fath. Yr ydym ar hyn o bryd yn disgwyl clywed oddi wrth yr awdurdod addysg lleol pa gamau y mae'n bwriadu eu cymryd.

### Profion Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol Cyffredinol drwy Gyfrwng y Gymraeg

**C8 Rhodri Glyn Thomas:** Pa gamau y mae Jane Davidson wedi eu cymryd i sicrhau bod darpariaeth addas a digonol ar gyfer profion Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol Cyffredinol drwy gyfrwng y Gymraeg? (OAQ8947) [W]

**Jane Davidson:** Cynhelir y rhan fwyaf o brofion GNVQ yn yr haf bob blwyddyn. Mae'r tri chorff dyfarnu GNVQ wedi cadarnhau y bydd modd cynnig profion drwy gyfrwng y Gymraeg ym mis Mehefin eleni.

Mae rhywfaint o gyfle hefyd ym mis Ionawr bob blwyddyn, yn dibynnu ar y galw. Bydd dau o'r cyrff dyfarnu—AQA ac OCR—yn cynnig profion drwy gyfrwng y Gymraeg y mis yma. Mae'r trydydd corff dyfarnu, Edexcel, wedi cadarnhau nad oes galw am ei brofion y mis yma.

### Sicrhau Isadeiledd Dysgu Digonol mewn Sefydliadau Addysg Uwch

**C9 Pauline Jarman:** Beth sydd yn cael ei wneud i sicrhau isadeiledd dysgu digonol yn sefydliadau addysg uwch Cymru? (OAQ8952)

**Jane Davidson:** Yr wyf yn cydnabod yn llawn bwysigrwydd isadeiledd dysgu da o ran gallu sefydliadau addysg uwch i ddarparu addysg o ansawdd uchel.

Dros y cyfnod tair blynedd 1999-2000 i 2001-02 yn unig darparwyd cyllid cyfalaf o £19.5 miliwn i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru drwy Gyngor Ariannu Addysg Uwch Cymru, yn arbennig ar gyfer isadeiledd a darpariaeth technoleg gwybodaeth (TG).

Am y flwyddyn ariannol nesaf 2001-02, mae'r cyllid a ddarperir ar gyfer y sector addysg uwch yng Nghymru yn cynnwys cyfalaf pellach o £15 miliwn ar gyfer isadeiledd a darpariaeth TG. Mae'r cyllidebau dangosol ar gyfer y cyfnod 2002-04 yn cynnwys £20 miliwn arall ar gyfer y pwrpas hwn, ond yr wyf eisoes wedi nodi y bydd y Cynulliad yn edrych yn ofalus eto ar gyllid addysg uwch i'r dyfodol yng ngoleuni canlyniad adolygiad y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes o bolisi addysg uwch yng Nghymru.

### Lefel Gwariant ar Addysg yng Nghymru

**C10 Alison Halford:** A wnaiff Jane Davidson ddatganiad ar lefel y gwariant ar addysg yng Nghymru mewn perthynas â rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig? (OAQ8851)

**Jane Davidson:** Ceir gwybodaeth am wariant addysg y Deyrnas Unedig yng nghyhoeddiad yr Adran Addysg a Chyflogaeth 'Education and Training Statistics for the United Kingdom'. Mae hwn yn rhoi manylion am wariant ar sail y DU yn unig. Mae'n anodd cymharu rhwng gwledydd oherwydd gwahaniaethau yn y systemau addysg.

Yr ydym wedi gwneud rhai cymariaethau o wariant fesul disgybl yng nghyllidebau awdurdodau lleol ar gyfer addysg rhwng Cymru a Lloegr. Dengys ffigyrau darpariaethol fod cyfartaledd Cymru am 2000-01 yn uwch nag wyth o'r deg rhanbarth yn Lloegr; dim ond Llundain a Glannau Mersi sydd yn uwch. £2,870 yw'r cyfartaledd cyllideb gwariant fesul disgybl yng Nghymru; £2,920 yw'r cyfartaledd i Loegr. Os na chynhwysir Llundain, mae cyfartaledd Lloegr yn £2,840. Dyma'r manylion llawn:

**Cyllidebau awdurdodau lleol ar gyfer rhanbarthau Cymru a Lloegr**

| | Disgybl(£) | dros Gymru | disgybl(£) | dros Gymru |
|---|---|---|---|---|
| **Cymru** | **2,660** | **+0%** | **2,870** | **+0%** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Lloegr** | | | | |
| Dwyrain | 2,620 | -1% | 2,850 | -1% |
| Dwyrain Canolbarth | 2,550 | -4% | 2,740 | -5% |
| Llundain | 3,170 | +19% | 3,420 | +19% |
| Glannau Mersi | 2,780 | +5% | 3,030 | +5% |
| Gogledd-ddwyrain | 2,630 | -1% | 2,810 | -2% |
| Gogledd-orllewin | 2,630 | -1% | 2,860 | -0% |
| De-ddwyrain | 2,640 | -1% | 2,860 | -0% |
| De-orllewin | 2,560 | -4% | 2,810 | -2% |
| Gorllewin Canolbarth | 2,670 | +0% | 2,870 | -0% |
| Swydd Efrog | 2,590 | -3% | 2,790 | -3% |
| **Lloegr** | **2,700** | **+2%** | **2,920** | **+2%** |
| **Cymru a Lloegr** | **2,700** | **+1%** | **2,910** | **+1%** |
| **Lloegr heb gynnwys** | | | | |
| Llundain | 2,620 | -1% | 2,840 | -1% |
| Llundain a'r metro | 2,600 | -2% | 2,810 | -2% |

Ffynhonnell : Ffigyrau Cyfrif Refeniw am 1999-2000 1 2000-01.
Mae'r ysgolion yn cynnwys pob ysgol a gynhelir gan yr awdurdod lleol. Meithrin, cynradd, uwchradd, arbennig a PRU. Gwariant cyllideb.

Mae'r gwariant yn cynnwys grantiau penodol ond nid yw'n cynnwys incwm o ffioedd, gwerthiannau a thaliadau.
Uned Ystadegau Cyllid Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
28 Medi 2000

**Cyfranogiad y Sector Preifat yng Nghyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant**

**C11 Alun Cairns:** A wnaiff Jane Davidson ddatganiad ar gyfranogiad y sector preifat yng Nghyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant? (OAQ8873)

**Jane Davidson:** Mae'r Cynulliad bob amser wedi dweud yn glir y bydd gan y sector preifat ran fawr i'w chwarae yn y trefniadau newydd ar gyfer dysgu ôl-16 yng Nghymru ar bob lefel. Wrth benodi i Gyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant rhoddir ystyriaeth ddyledus i anghenion y cyngor am gydbwysedd arbenigedd sydd yn cynnwys sgiliau a phrofiad busnes.

Byddwn yn disgwyl i'r cyngor gadw'r un peth mewn cof wrth benodi pobl i'w bwyllgorau rhanbarthol maes o law.

Bydd gan y gymuned fusnes rôl bwysig iawn i'w chwarae hefyd o ran cefnogi gwaith y pwyllgorau rhanbarthol a'r Consortia Addysg a Hyfforddiant Cymunedol drwy ddarparu safbwynt busnes o ran anghenion sgiliau ac ar ddarpariaeth gwasanaethau yn lleol. Felly bydd yn hanfodol i weithgareddau'r Cyngor Addysg a Hyfforddiant y cynhelir y rhwydweithiau busnes rhanbarthol a lleol sydd wedi'u hadeiladu yn y blynyddoedd diweddar gyda chefnogaeth gan y cynghorau hyfforddiant a menter.

**Sicrhau bod Grwpiau sydd dan Anfantais yn Chwarae Mwy o Ran mewn Addysg Uwch**

**C12 John Griffiths:** Pa strategaeth a gaiff ei dilyn i sicrhau bod grwpiau sydd dan anfantais yn gymdeithasol ac yn economaidd yn chwarae mwy o ran mewn addysg uwch yng Nghymru? (WAQ8879)

**Jane Davidson:** Mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru wedi sefydlu amrediad o raglenni a mentrau a gynlluniwyd i gefnogi sefydliadau i ymateb i anghenion addysgol myfyrwyr anhraddodiadol. Mae'r Cynulliad wedi gofyn i'r Cyngor Cyllido barhau i weithio gyda sefydliadau i hyrwyddo recriwtio myfyrwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth deg ar hyn o bryd.

Mae'r Cynulliad, o'i ran yntau, yn darparu arian caledi i bob sefydliad addysg uwch a gaiff arian cyhoeddus yng Nghymru er mwyn iddynt allu darparu cymorth dethol i fyfyrwyr sydd mewn anawsterau ariannol difrifol, neu na allent fel arall fforddio cael mynediad at addysg uwch yn y lle cyntaf. Darparwyd swm o £4.774 miliwn i sefydliadau addysg uwch Cymru i'r pwrpas hwn yn 2000-01.

Y mae'r Cynulliad, serch hynny, yn bryderus iawn na ddylai arian fod yn rhwystr i neb gyfranogi mewn addysg uwch. Byddwch yn ymwybodol ein bod wedi sefydlu ymchwiliad annibynnol i galedi myfyrwyr a chyllid myfyrwyr yng Nghymru, a fydd yn edrych ar y mater hwn o fewn ei gylch gorchwyl. Disgwylir adroddiad y grŵp ymchwilio erbyn y Pasg.

**Anghenion Bechgyn sydd mewn Addysg Gynradd ac Uwchradd**

**C13 John Griffiths:** Pa gamau a gaiff eu cymryd i fynd i'r afael ag anghenion penodol bechgyn sydd mewn addysg gynradd ac uwchradd yng Nghymru? (OAQ8880)

**Jane Davidson:** Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi sefydlu targed cenedlaethol ar gyfer 2002 i haneru'r graddau y mae bechgyn yn tan-gyflawni yn erbyn genethod o gymharu â 1996. Er mwyn lleihau'r beichiau ar ysgolion, mae'r targed wedi'i osod yn nhermau profion cyfnod allweddol yn unig ac wedi'i fynegi drwy gyfeirio at y mynegydd pwnc craidd.

Mae awdurdodau addysg lleol yn gweithio at y targed fel rhan o'u cynlluniau strategol addysgol a'u strategaethau llythrennedd a rhifedd. Ynghyd â'r ysgolion, mae AALlau wedi gosod eu targedau eu hunain i leihau'r gwahaniaeth, ac fe'u cynorthwyir mewn ymarfer yn y dosbarth drwy gyngor ac arweiniad a gyhoeddir gan Estyn ac ACCAC. Mae adnoddau ariannol i gefnogi AALlau ac ysgolion i weithredu eu camau yn dal i gael eu darparu gan y Cynulliad drwy'r rhaglen grant ar gyfer cynnal addysg a hyfforddiant.

**Ysgolion yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru**

**C14 Nick Bourne:** Pa ysgolion yng nghanolbarth a gorllewin Cymru y mae Jane Davidson wedi ymweld â hwy ers iddi gael ei phenodi yn Weinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes? (OAQ8875)

**Jane Davidson:** Nid wyf wedi ymweld ag unrhyw ysgolion yn y canolbarth a'r gorllewin yn fy rôl fel Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes ond nid wyf ychwaith wedi cael unrhyw wahoddiadau gan ysgolion yn yr ardal arbennig hon. Ddiwedd mis Tachwedd fe roddodd Kirsty Williams wahoddiad imi ymweld ag amrediad o ysgolion o fewn ei hetholaeth hi, a byddaf yn ymateb i'w gwahoddiad pan fydd fy nyddiadur yn caniatáu.

Wrth reswm, os dymuna unrhyw ysgolion roi gwahoddiadau, byddaf bob amser yn hapus i'w hystyried fel rhan o'm rhaglen barhaus o ymweld ag ysgolion ledled Cymru.

**Ymchwiliad i Galedi ymhlith Myfyrwyr**

**C15 Kirsty Williams:** Faint o gynnydd sydd wedi ei wneud mewn perthynas â chael y Cynulliad i sefydlu ymchwiliad i galedi ymhlith myfyrwyr? (OAQ8929)

**Jane Davidson:** Cyhoeddais mewn Cyfarfod Llawn ar 5 Rhagfyr 2000 y cylch gorchwyl ar gyfer yr ymchwiliad annibynnol i galedi myfyrwyr a chyllid myfyrwyr yng Nghymru, ac enwais aelodau'r grŵp.

Mae'r grŵp wedi cyfarfod deirgwaith ers y cyhoeddiad hwnnw. Cyn hir bydd y grŵp yn cyhoeddi amserlen ar gyfer cyfarfodydd cymryd tystiolaeth a gynhelir mewn sawl canolfan ledled Cymru, a hynny yn ystod yr wythnosau nesaf. Disgwylir adroddiad y grŵp ymchwilio erbyn y Pasg.

### Llunio Polisi Ysgolion Gwledig

**C16 Kirsty Williams:** Pa gynnydd sydd wedi'i wneud o ran llunio polisi ysgolion gwledig? (OAQ8928)

**Jane Davidson:** Mae'r adolygiad y mae'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes yn ei wneud ar hyn o bryd i'r nifer o leoedd ysgol sydd ar gael yn cynnwys materion yn ymwneud ag ysgolion gwledig a bach. Byddaf yn ystyried polisi'r dyfodol yng ngoleuni eu casgliadau hwy a gobeithiaf ddod ag adroddiad yn ôl i'r Cyfarfod Llawn cyn gwyliau'r haf.

### Effeithiau Talu yn ôl Perfformiad

**C17 Dafydd Wigley:** Pa asesiad sydd wedi'i wneud o effeithiau'r cynlluniau i dalu yn ôl perfformiad ar recriwtio a chadw athrawon yng Nghymru? (OAQ8959)

**Jane Davidson:** Cyfrifoldeb yr Adran Addysg a Chyflogaeth yw cyflog ac amodau gwasanaeth athrawon yng Nghymru a Lloegr fel ei gilydd; nid yw'n fater a ddatganolwyd i'r Cynulliad. Yr oedd adroddiad y corff adolygu athrawon ysgol, a gyhoeddwyd yn Chwefror 2000, yn cefnogi'r cysyniad o raddfa gyflog uchaf newydd i athrawon ystafell ddosbarth yn seiliedig ar berfformiad sylweddol dros gyfnod maith. Dan gylch gwaith y corff adolygu roedd gofyn iddynt, wrth wneud eu hargymhellion, roi ystyriaeth, ymhlith pethau eraill, i'r angen i ysgolion recriwtio, cadw a symbylu digon o athrawon ystafell dosbarth o'r ansawdd gofynnol.

### Sicrhau Cydraddoldeb i Ddisgyblion

**C18 Cynog Dafis:** Pa gamau y mae Jane Davidson wedi'u cymryd i sicrhau cydraddoldeb i ddisgyblion Cymru wrth i sgiliau allweddol gael eu cyflwyno i'r cwricwlwm? (OAQ8948) [W]

**Jane Davidson:** Pwysleisir cyfleoedd i gyflwyno sgiliau allweddol yng nghwricwlwm cenedlaethol Cymru drwy'r rhaglenni astudio ar gyfer pob un o bynciau'r cwricwlwm cenedlaethol. Cyhoeddwyd y rhaglenni astudio gan Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru, wedi i'r Cynulliad Cenedlaethol gymeradwyo'r cwricwlwm diwygiedig ar gyfer Cymru ym mis Ionawr y llynedd. Mae tudalennau cyntaf pob un o'r dogfennau'n cynnwys datganiad ynghylch mynediad i bob disgybl, sy'n nodi'n glir y dylid dysgu'r rhaglen astudio ym mhob cyfnod allweddol i fwyafrif helaeth y disgyblion mewn ffyrdd sy'n briodol i'w galluoedd a'u haeddfedrwydd wrth iddynt ddatblygu.

Drwy'r diwygiadau i gymwysterau ôl-16 oed, yn dilyn yr ymgynghori ar 'Cymhwyso i Lwyddo', aethpwyd ati i sicrhau y byddai sgiliau allweddol yn sylfaen i'r cymwysterau. Yn benodol, cyflwynwyd y cymhwyster sgiliau allweddol newydd ym mis Medi'r llynedd ac mae ar gael i ddysgwyr mewn ysgolion, colegau a hyfforddiant yn seiliedig ar waith. Roedd yn bleser gennyf lansio Rhaglen Cymorth Sgiliau Allweddol Cymru fis Rhagfyr diwethaf. Bydd y rhaglen hon yn helpu athrawon a darlithwyr sy'n cyflwyno'r cymhwyster mewn ysgolion a cholegau. Trefnwyd y bydd y Cynulliad yn ariannu pecyn o gymorth a hyfforddiant i ddarparwyr. Bydd hyn yn cael ei reoli gan y cynghorau hyfforddi a menter. Bydd y rhaglenni hyn yn helpu i annog nifer fawr o bobl i geisio am y cymhwyster newydd ym mhob maes dysgu.

### Gwireddu Polisi Cyfle Cyfartal

**C19 Owen John Thomas:** Pa drafodaethau y mae Jane Davidson wedi eu cael gydag awdurdodau lleol i'w hannog i wireddu polisi cyfle cyfartal ar gyfer y rhai sydd am addysg cyfrwng Cymraeg neu addysg anghenion arbennig wrth ehangu darpariaeth addysg blynyddoedd cynnar? (OAQ8886) [W]

**Jane Davidson:** Mae'r cyfarwyddiadau presennol ar gyfer partneriaethau lleol yng Nghymru ar gyfer datblygu addysg blynyddoedd cynnar a gofal plant yn ei gwneud yn ofynnol bod rhaid i gynlluniau datblygu blynyddoedd cynnar hybu cyfle cyfartal i bob plentyn pa bynnag genedl, cyrhaeddiad, ethnigrwydd, anghenion addysgol arbennig, anabledd, neu gymhwysedd yn Gymraeg neu Saesneg, sydd ganddo. Yn yr un modd, dylai cynlluniau hefyd ystyried cynllun addysg Gymraeg yr awdurdod lleol a rhoi ystyriaeth lawn i'r galw ymhlith rhieni am ddarpariaeth Gymraeg. Bydd cyfarwyddiadau newydd i ystyried ymestyn y ddarpariaeth statudol i blant teirblwydd yn adlewyrchu'r arferion da presennol.

Yn ogystal, mae'r cod ymarfer anghenion addysgol arbennig newydd sydd ar ffurf drafft, sef ymgynghoriad a gynhaliwyd yn ddiweddar yng Nghymru, bellach yn cynnwys pennod arbennig ar nodi ac asesu, a darparu ar gyfer anghenion addysgol arbennig mewn sefyllfaoedd addysg gynnar. Mae'r god ymarfer newydd drafft ar gyfer anghenion addysgol arbennig yng Nghymru hefyd yn cynnwys arweiniad ehangach ar gyfer cyrff cyhoeddus o safbwynt bodloni gofynion Deddf yr Iaith 1993 wrth ymdrin â phlant Cymraeg ag anghenion addysgol arbennig, a'u rhieni. Mae'r god drafft, a luniwyd ar y cyd â Bwrdd yr Iaith Gymraeg, yn egluro y dylid cymryd camau priodol i ganfod mamiaith plentyn cyn gynted â phosibl wrth bennu'r ddarpariaeth y dylid ei chynnig er mwyn ateb anghenion addysgol arbennig plentyn ac y dylai gwasanaethau cyfrwng Cymraeg fod ar gael i rieni o'r cychwyn cyntaf.

Yn yr un modd â'r presennol, bydd gofyn i bob darparwr addysg gynnar a ariennir drwy bartneriaeth, gan gynnwys darparwyr y tu allan i'r sector a gynhelir, gyfeirio at fersiwn diwygiedig y god ymarfer anghenion addysgol arbennig wrth ddarparu ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig. Os caiff y Mesur Anghenion Addysgol Arbennig ac Anableddau ei basio gan y Senedd, rhagwelir y cyflwynir y god arfaethedig ar ei newydd wedd gerbron y Cynulliad i gael sêl bendith ym mis Ebrill/Mai 2001, gyda'r bwriad o'i weithredu yng Nghymru cyn gynted â phosibl ar ôl hynny.

### Gwella Gwasanaethau Addysg yng Nghymru

**C20 Nick Bourne:** Pa bolisïau sydd yn cael blaenoriaeth gan Jane Davidson wrth geisio gwella gwasanaethau addysg yng Nghymru? (OAQ8876)

**Jane Davidson:** Cafodd fy mlaenoriaethau polisi ar gyfer gwella gwasanaethau addysg yng Nghymru yn 2001 eu hamlinellu yn fy natganiad i'r wasg ar 7 Ionawr sydd ar gael ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol.

### Adnoddau'r Cynulliad sydd wedi'u Neilltuo at Ddibenion Addysgol

**C21 David Melding:** Sut y bydd y weinyddiaeth yn sicrhau bod adnoddau'r Cynulliad sydd wedi'u neilltuo at ddibenion addysgol yn cael eu rhoi i ysgolion? (OAQ8847) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Dirprwyaeth Arian ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig

**C22 Gareth Jones:** Pa drafodaethau y mae Jane Davidson wedi'u cael gydag ysgolion yn ymwneud â dirprwyaeth arian ar gyfer anghenion addysgol arbennig? (OAQ8949) [W]

**Jane Davidson:** Yn unol â Rheoliadau Ariannu Ysgolion a Gynhelir 1999, rhaid dirprwyo'r arian i'r ysgolion ac eithrio os yw'n ymwneud ag un o'r gweithgareddau a ddisgrifir yn y rheoliadau lle y gellir cadw'r cyllid yn ganolog. O ganlyniad, mae dros 50 y cant o'r cyllid ar gyfer anghenion addysgol arbennig (AAA) eisoes wedi'i ddirprwyo i ysgolion. Wrth ymateb i'r ymgynghoriad diweddar ar ddiwygio'r god ymarfer anghenion addysgol arbennig gwnaed nifer o sylwadau ynghylch y rhaniad rhwng gwariant AAA a ddirprwyir a gwariant AAA nas dirprwyir. Mae'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad yn cael eu hystyried ar hyn o bryd.

### Ymrwymiadau Cyfredol i Faes Addysg Uwch

**C23 Janet Davies:** A wnaiff Jane Davidson ddatganiad ar yr ymrwymiadau cyfredol i faes addysg uwch yn y cyllidebau ar gyfer 2002-03 a 2003-04? (OAQ8963)

**Jane Davidson:** Mae'r cyllidebau dangosol ar gyfer addysg uwch yng Nghymru yn £320.211 miliwn am y flwyddyn 2002-03 a £329.211 miliwn am 2003-04, heb gynnwys incwm oddi wrth ffioedd dysgu.

Yr ydym wedi ymrwymo i sefydlu dyfodol cryf i'r sector addysg uwch yng Nghymru drwy lunio strategaeth 10-mlynedd ar gyfer datblygu ac ehangu gyda chyllid digonol.

Yr wyf wedi nodi eisoes felly y bydd y Cynulliad yn edrych eto yn ofalus ar y cyllid ar gyfer addysg uwch yn 2002-03 ac wedi hynny yng ngoleuni canlyniad adolygiad y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes o bolisi addysg uwch yng Nghymru.

**Ysgolion yn Agor am Bedwar Diwrnod yr Wythnos**

**C24 David Davies:** A oes unrhyw ysgolion yng Nghymru wedi sôn efallai y bydd angen iddynt agor am bedwar diwrnod yr wythnos oherwydd prinder staff? (OAQ8858)

**Jane Davidson:** Nid oes unrhyw ysgol nac awdurdod addysg lleol wedi sôn am hyn wrth Adran Addysg y Cynulliad Cenedlaethol.

**Anghenion Addysgol Pobl sydd yn Ceisio Lloches**

**C25 Peter Black:** Pa drafodaethau y mae Jane Davidson wedi'u cael ag awdurdodau addysg lleol am anghenion addysgol pobl sydd yn ceisio lloches? (OAQ8924)

**Jane Davidson:** Yr ydym wedi cael nifer o drafodaethau gydag awdurdod addysg lleol Caerdydd ac, ar wahân, awdurdod addysg lleol Casnewydd, sydd yn gweithredu fel cydgysylltydd dros Gonsortiwm Cymru. Yr anhawster hyd yma fu absenoldeb gwybodaeth bendant ar y niferoedd o geiswyr lloches a fydd yn cyrraedd ac, yn sgîl hynny, y costau addysgol ychwanegol a fydd yn gysylltiedig â hwy.

Deallaf, fodd bynnag, fod Cyngor Sir a Dinas Caerdydd ddoe wedi arwyddo contract gyda'r Gwasanaethau Cenedlaethol i Rai sydd yn Ceisio Lloches (NASS) dros y cyfleusterau y bydd eu hangen er mwyn derbyn ceiswyr lloches yn y ddinas. Yn sgîl gwneud y trefniadau hyn yn derfynol ac, mae'n debyg, bod yn fwy eglur ynghylch y niferoedd a'r costau ychwanegol dan sylw, bydd fy swyddogion yn cyfarfod cyn bo hir gyda chyngor Caerdydd i drafod y costau addysgol ychwanegol ynghlwm wrth hyn.

Yn achos y Consortiwm Cymreig, deallwn fod NASS yn bwriadu ailagor y broses negodi yn ddiweddarach y mis yma, ac unwaith y bydd hon wedi mynd ymhellach ymlaen, bydd fy swyddogion i'n ceisio cyfarfod tebyg gyda hwy.

**Lleihau Nifer y Disgyblion sydd yn Cael eu Gwahardd o'r Ysgol**

**C26 Jonathan Morgan:** A wnaiff Jane Davidson ddatganiad ar ei pholisi i leihau nifer y disgyblion sydd yn cael eu gwahardd o'r ysgol? (OAQ8927) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Codi Morâl Athrawon**

**C27 Geraint Davies:** Sut y bydd polisïau presennol y weinyddiaeth yn codi morâl athrawon ac yn lleihau'r nifer sydd yn gadael y proffesiwn? (OAQ8961)

**Jane Davidson:** Mae amryw o fentrau polisi wedi'u cyflwyno neu yn cael eu cyflwyno i wella delwedd, morâl a statws y proffesiwn. Ym Medi 2000, sefydlwyd Cyngor Dysgu Cyffredinol Cymru i ddarparu llais annibynnol i'r proffesiwn dysgu. Yn ystod 2001, byddwn yn cwblhau datblygiad rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant arweinyddiaeth. Byddaf yn ymgynghori ar fframwaith tair blynedd i gefnogi athrawon sydd newydd gymhwyso a hefyd ar drefniadau rheoli perfformiad newydd, a fydd yn sail i ddatblygiad gyrfaol a phroffesiynol pob athro ac athrawes. Yr wyf wedi annog athrawon ystafell

ddosbarth yng Nghymru i wneud cais am asesiad trothwy a bydd y rhai hynny sydd yn llwyddiannus yn symud i fyny i raddfa gyflog uwch newydd a fydd yn cynnig cyflogau o hyd at £30,000 y flwyddyn. Yn ystod 2001, byddwn yn parhau i weithio ar edrych sut y gellid lleihau beichiau biwrocrataidd i athrawon.

**Creu Cymru Ddwyieithog**

**C28 Owen John Thomas:** Pa gamau yr ydych chi wedi eu cymryd ym myd addysg i wireddu polisi'r Cynulliad Cenedlaethol o greu Cymru ddwyieithog? (OAQ8925) [W]

**Jane Davidson:** Mae gan bob disgybl yng Nghymru'r cyfle i ddysgu Cymraeg drwy gydol eu hamser yn yr ysgol. Mae'r Cynulliad hefyd wedi ymrwymo i sicrhau bod y ddarpariaeth addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn cyd-fynd â'r galw. Yn 2000-01, mae £3.5 miliwn wedi'i ddarparu drwy gyfrwng y rhaglen grantiau cynnal addysg a hyfforddiant i gynorthwyo hyfforddiant a chamau eraill a anelir at gynorthwyo rhoi'r Gymraeg ar waith a'i datblygu fel iaith gyntaf ac ail iaith o fewn y cwricwlwm cenedlaethol ac i gefnogi athrawon sy'n dymuno trosglwyddo i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ychwanegol, mae rhyw £1.3 miliwn ar gael ar gyfer datblygu adnoddau addysgu Cymraeg a dwyieithog drwy gyfrwng ACCAC.

Mae adroddiadau Estyn yn dangos llwyddiant calonogol ac yn cadarnhau bod safonau'n gwella.

**Gwella Lefel y Sgiliau yn Economi Cymru**

**C29 Lynne Neagle:** Pa bolisïau y mae Jane Davidson yn eu gweithredu i wella lefel y sgiliau yn economi Cymru? (OAQ8888)

**Jane Davidson:** Mae gan y Cynulliad amrediad eang o bolisïau a rhaglenni i wella sgiliau, gan gynnwys y rhaglenni hyfforddiant i bobl ifanc a dysgu yn y gwaith i oedolion a redir gan gynghorau hyfforddiant a menter a gwasanaethau cynghori ac arwain y Cwmnïau Gyrfaoedd. O Ebrill 2001, daw diwygiadau mawr i rym yn yr isadeiledd gweinyddol drwy Gyngor Addysg a Hyfforddiant newydd Cymru a chreu corff Gyrfaoedd Cymru. Bydd ein polisïau yn y dyfodol yn manteisio ar waith prosiect Sgiliau Dyfodol Cymru ac adroddiad Tasglu Sgiliau Cymru ac yn cael eu hymgorffori yn y strategaeth ddatblygu economaidd genedlaethol.

**Cyfarfod â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Chyflogaeth**

**C30 Ann Jones:** A wnaiff Jane Davidson ddatganiad ar ei chyfarfod diweddar â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Chyflogaeth? (OAQ8930)

**Jane Davidson:** Cyfarfûm â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Chyflogaeth yn Lloegr, David Blunkett, ddydd Mawrth 19 Rhagfyr. Bu'n gyfarfod llwyddiannus dros ben lle cefais y cyfle i hyrwyddo'n polisïau addysg ni yng Nghymru, yn ogystal â chyfnewid profiadau mewn meysydd polisi allweddol. Cytunwyd ar nifer o feysydd ar gyfer gweithio ar y cyd tra'n cydnabod gwahaniaethau parthed anghenion gwahanol Cymru, er enghraifft, rôl bwysig awdurdodau lleol yng Nghymru a all benderfynu ar eu blaenoriaethau eu hunain mewn gwahanol gymunedau.

Mynegodd yr Ysgrifennydd Gwladol ddiddordeb mawr mewn datblygiadau polisi allweddol yng Nghymru, gan gynnwys ein hymgynghoriad ar y modd y cyflwynir gwybodaeth ar berfformiad ysgolion, ein hymrwymiad i beilota Bagloriaeth i Gymru, ein Cyngor DysguCyffredinol newydd i Gymru, ein gwaith datblygu polisi ieuenctid gan gynnwys yr adroddiad 'Ymestyn yr Hawl', a'r diploma sgiliau modern newydd i oedolion ar gyfer hyfforddi rhai dros 25 oed. Trafodasom hefyd adolygiad y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes o addysg uwch a'r ymchwiliad annibynnol i galedi a chyllid myfyrwyr.

Yr wyf yn hyderus mai dyma'r cyntaf o lawer o gyfarfodydd gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Chyflogaeth a'i gydweithwyr, a fydd o fudd mawr i ni yng Nghymru, gan adeiladu ar berthynas a

sefydlwyd eisoes rhwng y Cynulliad Cenedlaethol ac adrannau'r Adran Addysg a Chyflogaeth ar faterion penodol.

## Cwestiynau i Bwyllgor y Tŷ

### Darparu Cadeiriau Olwyn yn y Cynulliad Cenedlaethol

**C8 Richard Edwards:** A all Pwyllgor y Tŷ wneud datganiad ar ddarparu cadeiriau olwyn yn y Cynulliad Cenedlaethol? (OAQ8945)

**Y Dirprwy Lywydd (John Marek):** Mae cadair olwyn ar gael i'w defnyddio yn y Cynulliad Cenedlaethol. Bydd Pwyllgor y Tŷ yn sicrhau cyhoeddusrwydd priodol ac fe geir cadeiriau olwyn ychwanegol os oes galw amdanynt.

### Cyhoeddi Canllawiau Personél i Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad

**C9 Nick Bourne:** A wnaiff personél ystyried cyhoeddi canllawiau personél i staff Aelodau'r Cynulliad? (OAQ8937)

**Y Dirprwy Lywydd:** Mae Pwyllgor y Tŷ wedi cyhoeddi canllawiau ar reoli staff cymorth a bydd yn ymateb i unrhyw geisiadau pellach. Fodd bynnag, rhaid pwysleisio nad y Cynulliad Cenedlaethol sydd yn cyflogi staff cymorth Aelodau'r Cynulliad.

### Rhannu Cyfleusterau Seneddol a rhai'r Cynulliad

**C10 Rosemary Butler:** Pa gynnydd sydd wedi bod o ran datblygu gweithdrefnau a fyddai'n caniatáu i Aelodau Seneddol ac Aelodau Senedd Ewrop ddefnyddio cyfleusterau'r Cynulliad ac i Aelodau'r Cynulliad ddefnyddio cyfleusterau Tŷ'r Cyffredin a Senedd Ewrop? (OAQ8943)

**Y Dirprwy Lywydd:** Cytunwyd mewn egwyddor i ACau ac ASau gael defnyddio'u cyfleusterau ei gilydd. Gobeithia Pwyllgor y Tŷ gyhoeddi cynllun yn fuan a bydd yn parhau i geisio dod i gytundeb â Senedd Ewrop.